# Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023

**2023 dsc 3**

## RHAN 5

DARPARIAETH ATODOL YNGHYLCH ADEILADAU O DDIDDORDEB ARBENNIG AC ARDALOEDD CADWRAETH

## PENNOD 2

ACHOSION GERBRON GWEINIDOGION CYMRU

PROSPECTIVE

*Darpariaethau gweithdrefnol sy'n gymwys i apelau i Weinidogion Cymru*

### 172 Ffioedd am apelau

(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n gwneud apêl y mae'r adran hon yn gymwys iddo dalu ffi i Weinidogion Cymru.

(2) Mae'r adran hon yn gymwys—

(a) i apêl o dan adran 100 (apêl yn erbyn penderfyniad neu fethiant i wneud penderfyniad ar gais am gydsyniad adeilad rhestredig neu gydsyniad ardal gadwraeth, i amrywio neu ddileu amodau neu i gymeradwyo manylion);

(b) i apêl o dan adran 127 (apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi).

(3) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon yn benodol—

(a) gwneud darpariaeth ynghylch pryd y mae rhaid talu ffi;

(b) gwneud darpariaeth ynghylch sut y mae ffi i'w chyfrifo (gan gynnwys pwy sydd i'w chyfrifo);

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 15/06/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) croes bennawd yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, Croes Bennawd: Darpariaethau gweithdrefnol sy'n gymwys i apelau i Weinidogion Cymru yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 01 Awst 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau*

(c) pennu amgylchiadau pan fo ffi i'w hepgor neu ei had-dalu (yn gyfan gwbl neu'n rhannol);

(d) pennu amgylchiadau pan nad oes ffi i'w thalu;

(e) gwneud darpariaeth ynghylch effaith talu neu fethu â thalu ffi yn unol â'r rheoliadau (a gaiff gynnwys darpariaeth sy'n diwygio, yn diddymu neu'n dirymu unrhyw ddeddfiad, gan gynnwys unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 172 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 212(2)**

## 173 Penderfynu apêl gan berson a benodir

(1) Mae apêl y mae'r adran hon yn gymwys iddi i'w phenderfynu gan berson a benodir gan Weinidogion Cymru (yn hytrach na chan Weinidogion Cymru).

(2) Mae'r adran hon yn gymwys—

(a) i apêl o dan adran 100 (apêl yn erbyn penderfyniad neu fethiant i wneud penderfyniad ar gais am gydsyniad adeilad rhestredig neu gydsyniad ardal gadwraeth, i amrywio neu ddileu amodau neu i gymeradwyo manylion);

(b) i apêl o dan adran 127 (apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi).

(3) Ond nid yw'r adran hon yn gymwys i apêl—

(a) os yw'n apêl o ddisgrifiad a bennir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru, neu

(b) os yw Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo bod yr apêl i'w phenderfynu ganddynt hwy yn hytrach na chan berson a benodir.

(4) Nid yw'r adran hon yn effeithio ar unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon neu mewn rheoliadau a wneir odani sy'n darparu y caniateir i apêl gael ei gwneud i Weinidogion Cymru, neu fod rhaid i hysbysiad o apêl gael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru.

(5) Pan fo person a benodir yn penderfynu apêl, mae penderfyniad y person a benodir i'w drin fel pe bai'n benderfyniad gan Weinidogion Cymru.

(6) Mae Atodlen 12 yn gwneud darpariaeth bellach mewn cysylltiad â phenodiadau o dan is-adran (1) a chyfarwyddydau o dan is-adran (3)(b).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** A. 173 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 212(2)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 15/06/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) croes bennawd yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, Croes Bennawd: Darpariaethau gweithdrefnol sy'n gymwys i apelau i Weinidogion Cymru yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 01 Awst 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.